# Rhestr Wirio Diwrnod yr Arholiad

Lluniwyd y rhestr wirio hon i'ch cynorthwyo i baratoi ar gyfer arholiadau yn eich canolfan. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o dasgau. Gallai Swyddogion Arholiadau ychwanegu tasgau ychwanegol sy'n berthnasol i'w canolfan.

| Gweithgaredd | Cwblhewch |
|---|---|
| • Mae o leiaf dau berson arall wedi gwirio pob pecyn papur cwestiynau cyn ei agor i sicrhau bod y papurau cwestiynau cywir, (diwrnod, dyddiad, amser, pwnc, uned/cydran a haen gofrestru) yn cael eu rhoi i ymgeiswyr. **Rhaid** cadw cofnod o'r gwiriadau hyn. | |
| • Mae'r deunydd ysgrifennu cywir ar gael ym mhob ystafell arholiadau (e.e. llyfrynnau ateb generig, papur parhad, cyfrifianellau). | |
| • Mae'r clociau ym mhob ystafell arholiadau yn gweithio'n iawn. | |
| • Mae'r desgiau wedi'u gosod yn unol â'r cynllun eistedd. | |
| • Mae copi o lyfryn Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau 2025/26 ar gael yn y prif ystafell(oedd) arholiad, naill ai yn electroneg neu ar ffurf copi caled. | |
| • Mae goruchwylwyr ac aelodau o staff y ganolfan sy'n hwyluso trefniadau mynediad yn gwbl ymwybodol o ba ymgeiswyr sydd â threfniadau mynediad cymeradwy a beth yw'r trefniadau hynny. | |
| • Mae goruchwylwyr yn gwbl ymwybodol o unrhyw ymgeiswyr sydd ag arholiadau'n gwrthdaro ar yr amserlen fel eu bod yn gallu cael eu goruchwylio yn syth ar ôl i'r arholiad orffen, a chyn dechrau'r arholiad nesaf. | |
| • Rhaid sicrhau bod unrhyw brosesydd geiriau sy'n cael ei ddefnyddio mewn arholiad yn bodloni'r holl ofynion fel y manylir ym mharagraff 14.25 o'r llyfryn Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau. | |

| | |
|---|---|
| • Mae unrhyw dechnoleg a ddefnyddir yn yr arholiad (e.e. chwaraewyr CD, chwaraewyr DVD, chwaraewyr MP3/4), wedi'i gwirio i sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn. | |
| • Mae goruchwylwyr yn gwbl ymwybodol o gynllun arholiad wrth gefn y ganolfan a'r gweithdrefnau gwacáu mewn argyfwng. | |
| • Mae posteri *Rhybudd i Ymgeiswyr* ac Eitemau nad ydynt yn cael eu caniatáu wedi'u gosod tu allan i bob ystafell arholiadau. | |
| • Caiff goruchwylwyr eu hatgoffa y caniateir iddyn nhw gael ffonau symudol yn yr ystafell arholiad i'w defnyddio mewn argyfwng yn unig, neu i alw am gymorth. Gofynnwyd iddyn nhw wirio eu bod wedi'u gosod i'r modd distaw. | |
| • Mae'r holl ddeunyddiau di-arholiad a pwnc-benodol wedi cael eu tynnu oddi ar waliau'r ystafell(oedd) arholiad. | |
| • **Rhaid** gwirio'n sydyn nad oes unrhyw ddeunyddiau heb eu caniatáu yn yr ystafell arholiad cyn i'r arholiad gychwyn a chyn bod ymgeiswyr wedi eistedd i lawr. | |
| • Mae gweithdrefnau ar waith i adnabod pob ymgeisydd cyn yr arholiad, gan gynnwys gwirio ID unrhyw ymgeiswyr preifat neu ymgeiswyr a drosglwyddwyd. | |
| • Mae goruchwylwyr a staff y swyddfa arholiadau yn ymwybodol o'r protocol os, mewn sefyllfa brin, oes amheuaeth bod gwall papur cwestiynau yn cael ei nodi. | |
| • Mae llyfrynnau fformiwlâu, taflenni data, testunau gosod ac ati wedi'u rhannu gan y ganolfan wedi'u gwirio i sicrhau nad oes anodiadau o gwbl ynddyn nhw. | |

Yn weithredol o 1 Medi 2025.